**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD
YN EISTEDD FEL YMDDIRIEDOLWYR YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN
AMGUEDDFA LLOYD GEORGE**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 16 Gorffennaf 2024 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 31 Gorffennaf 2024 |

**PWNC**

Eitem 6: YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN AMGUEDDFA LLOYD GEORGE

**PENDERFYNIAD**

1. Cymerawydwyd cwblhau'r Cytundeb o Ddealltwriaeth ddrafft sy'n gosod trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Elusen Amgueddfa Lloyd George (Yr Ymddiriedolaeth) a Chyngor Gwynedd (Y Cyngor), sy'n darparu'r gefnogaeth arbenigol a'r gwasanaethau atodol i redeg a gweithredu'r Amgueddfa ar ran yr elusen.
2. Cymeradwywyd cwblhau'r Cytundeb o Ddealltwriaeth drafft sy'n gosod y trefniadau cydweithio rhwng Yr Ymddiriedolaeth, Y Cyngor a Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George.
3. Derbyn diweddariad ar weithredu'r Achos busnes a chyfaniad Cyfeillion Amgueddfa Lloyd George.
4. Ymateb i'r prosiect SPF a'r cynlluniau amlinellol i ail-ddehongli a moderneiddio'r Amgueddfa.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

O ganlyniad i benderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd ar 15 Chwefror 2022 i ddarparu cyllideb i barhau i redeg yr Amgueddfa, adolygwyd Achos Busnes yr amgueddfa ac ymchwiliwyd i'r trefniadau llywodraethu mwyaf priodol ar gyfer y dyfodol.

Yn sgil derbyn cyllid trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, fe gomisiynwyd Dr Kevin Mason i weithio gyda Cyngor Gwynedd i adolygu trefniadau llywodraethu'r Amgueddfa.

Mae angen i'r ymddiriedolwyr ystyried y Memrandwm o Ddelltwriaeth gan ei fod yn ffurfioli'r berthynas weithredol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Cyngor. Nodir fod y Memorandwm yn ffurfioli'r berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r gwasanaethau a ddarperir gan Cyngor Gwynedd ac nid oes ganddo statws gyfreithiol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.